# POLISI BUDDSODDIADAU PRIFYSGOL ABERYSTWYTH

## CWMPAS

Mae'r Polisi Buddsoddiadau hwn yn ymwneud â buddsoddi a defnyddio cronfeydd gwaddolion sydd wedi'u gwaddoli'n barhaol i'r Brifysgol at ddibenion penodol a chyffredinol.

Mae'r polisi hwn hefyd yn berthnasol i unrhyw Asedau Buddsoddi eraill a allai ddod i feddiant y Brifysgol.

## ADOLYGU

Adolygir y polisi hwn ddwywaith y flwyddyn gan y Pwyllgor Buddsoddiadau.

Gall staff y Brifysgol gynnig gwelliannau i'r polisi hwn trwy'r Senedd neu aelodau Staff anacademaidd ar y Cyngor.

Gall myfyrwyr y Brifysgol gynnig gwelliannau i'r polisi hwn trwy'r Myfyrwyr sy'n Aelodau o'r Pwyllgor Buddsoddiadau neu'r Cyngor.

## NOD Y POLISI

Nod y Polisi yw ceisio'r elw gorau ar asedau Buddsoddi sydd dan reolaeth y Brifysgol, yn amodol ar gyfyngu risg y Brifysgol i lefel dderbyniol. Yn unol â chwaeth am risg y Brifysgol, nod y polisi buddsoddi hwn yw cydbwyso lefel isel-i-ganolig o risg gyfalaf â'r angen i gynhyrchu digon o incwm i ddiwallu'r dibenion penodol y rhoddwyd yr arian ar eu cyfer, heddiw ac yn y dyfodol.

Y nod cyffredinol yw sicrhau y bydd y Brifysgol yn gallu cyflawni amcanion y gwaddolion yn y dyfodol, yn unol â bwriad gwreiddiol y rhoddwyr.

## SWYDDOGAETHAU A CHYFRIFOLDEBAU

### CYNGOR Y BRIFYSGOL

Mae Cyngor y Brifysgol yn gyfrifol am gymeradwyo'r Polisi Buddsoddiadau yn flynyddol, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Buddsoddiadau.

### Y PWYLLGOR BUDDSODDIADAU

Mae'r Pwyllgor Buddsoddiadau yn goruchwylio ac yn cynghori'r Cyngor ar fuddsoddi gwaddolion a chronfeydd y sefydliad, yn cynnwys penodiad a pherfformiad cynghorwyr buddsoddi.

Mae aelodaeth y Pwyllgor, sy'n cynnwys cynrychiolwyr annibynnol a myfyrwyr, wedi'u cynnwys yn y cylch gorchwyl a gymeradwyir gan y Cyngor. Ceir rhagor o fanylion yn y ddolen ganlynol –

https://www.aber.ac.uk/cy/about-us/corporate-information/governance/sub-committees/

Bydd y Pwyllgor yn cyhoeddi portffolio buddsoddiadau'r Brifysgol ar wefan y Brifysgol yn flynyddol.

### CYNGHORYDD BUDDSODDI

Gall y Pwyllgor benodi Cynghorydd Buddsoddi annibynnol i gynorthwyo'r Pwyllgor a Staff i lunio polisïau a chanllawiau, dewis asedau priodol i'w dyrannu yn y tymor hir, dewis strwythur rheoli priodol, adnabod rheolwyr buddsoddi, gwerthuso perfformiad buddsoddiadau, a darparu gwasanaethau eraill yn ôl y gofyn.

Bydd y Pwyllgor Buddsoddiadau yn gwneud argymhellion i'r Cyngor ynglŷn â phenodi Cynghorydd Buddsoddi. Cynhelir ymarfer tendro bob pedair blynedd o leiaf.

Bydd y Pwyllgor Buddsoddi yn adolygu perfformiad y Cynghorydd Buddsoddi a'r telerau ymgysylltu bob blwyddyn o leiaf.

**RHEOLWYR BUDDSODDI**

Bydd y Brifysgol yn cyflogi un neu ragor o reolwyr buddsoddi i gyflawni ei hamcanion buddsoddi.

Penodir rheolwyr buddsoddi ar sail amrywiaeth o feini prawf, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, brofiad, hanes blaenorol, athroniaeth buddsoddi, costau ac integreiddio ystyriaethau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethol, gan fynnu eu bod yn ddiogel yn ariannol ac yn gallu ateb gofynion y Brifysgol am gost resymol. Gall y Pwyllgor Buddsoddiadau ddirprwyo dewis, prynu a gwerthu gwarannau unigol i arbenigwyr cymwys yn y diwydiant. Bydd pob rheolwr buddsoddi yn arfer doethineb dros asedau yn unol â'r canllawiau buddsoddi a nodir.

Gall Rheolwyr Buddsoddi ddefnyddio dyfodolion, opsiynau a deilliadau eraill wrth reoli'r cyfryngau buddsoddi y mae'r Brifysgol yn buddsoddi ynddynt. Yn yr achosion hyn, bydd y Pwyllgor Buddsoddiadau yn ystyried y risgiau a'r rheolaethau mewn grym trwy adolygu datganiadau risg deilliadau'r Rheolwyr Cronfeydd a sicrhau bod rheolwyr Cronfeydd yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar y modd y maent yn cydymffurfio â nhw.

Gellir talu ffioedd ar sail perfformiad i Reolwyr Buddsoddi. Lle bydd Rheolwyr Cronfeydd yn codi ffioedd ar sail perfformiad, bydd y Pwyllgor Buddsoddiadau yn sicrhau bod strwythur y ffioedd ar sail perfformiad yn annog perfformiad uchel heb hyrwyddo cymryd risg ormodol cyn buddsoddi.

**AMCANION Y BUDDSODDIADAU**

Amcanion ein Buddsoddiadau yw:

- Sicrhau targed incwm dosbarthadwy blynyddol o £800k y flwyddyn o leiaf (sy'n cyfateb i tua 2.4% o werth yr Ased Buddsoddi bob blwyddyn fel ar ddyddiad yr adolygiad yn 2023) gan gynyddu'n flynyddol yn unol â chwyddiant prisiau (RPI), er mwyn diwallu anghenion cyfredol y Brifysgol.
- Sicrhau cyfanswm elw ar yr asedau o Fynegai Prisiau Manwerthu gyda 2%-4% y flwyddyn dros gyfartaledd o gyfnodau tair blynedd, gan gynnal proffil addas o fuddsoddiadau yn ogystal â chyfyngu'r risg i lefel dderbyniol yng nghyd-destun yr amcan i wneud elw.

**STRATEGAETH DYRANNU ASEDAU**

Mae gan y Pwyllgor Buddsoddiadau awdurdod i gytuno ar y strategaeth dyrannu asedau a gosod meincnod rhannu'r cronfeydd rhwng gwahanol ddosbarthiadau asedau.

**RHEOLI RISG BUDDSODDIADAU**

Gwneir buddsoddiadau er lles y Brifysgol yn unig a'r nod fydd ceisio sicrhau'r elw gorau yn ogystal â chyfyngu'r risg i'r Brifysgol i lefel dderbyniol.

Bydd y Pwyllgor Buddsoddiadau yn trafod y strategaeth fuddsoddi yn flynyddol ac yn adolygu'r strategaeth fuddsoddi'n ffurfiol bob tair blynedd.

Ystyrir risgiau buddsoddi wrth weithredu amrywiaeth o fewn a rhwng dosbarthiadau asedau. Bydd y risg a ystyrir yn cynnwys:

- **Risg y farchnad** yw risg bod symudiadau negyddol yng ngwerth yr asedau o ganlyniad i symudiadau yn y farchnad. Symudiadau yn y farchnad yw newidiadau sy'n digwydd yn yr amgylchedd economaidd megis newidiadau i'r cyfraddau llog, prisiau cyfranddaliadau a chyfraddau'r gyfnewidfa dramor.
- **Risg hylifedd** yw risg na ellir clirio'r asedau mewn da bryd i dalu rhwymedigaethau'r Brifysgol ac fe all godi'n rhannol oherwydd camgymharu aeddfedu rhwng asedau a rhwymedigaethau.
- **Risg gredyd** yw risg methiant parti i gontract.

- **Risg weithredol** yw risg methiant rheoli system/mewnol.

## MONITRO PERFFORMIAD BUDDSODDIADAU

Bydd y Pwyllgor Buddsoddiadau yn:-

- asesu'r graddau y mae amcanion pob cronfa fuddsoddi gyfun yn cael eu cyflawni;
- monitro cysylltiad dyrannu asedau yn ôl ystodau a meincnodau dyrannu asedau strategol;
- monitro'n rheolaidd berfformiad y Rheolwyr Buddsoddi a benodir yn erbyn meincnodau perthnasol yn cynnwys perfformiad rheolwyr proffesiynol perthnasol eraill a mynegeion cysylltiedig y farchnad;
- canfod unrhyw wendidau penodol y rheolwyr a benodir; ac
- asesu'n rheolaidd allu pob Rheolwr Buddsoddi i gyflawni eu hamcanion yn llwyddiannus.

Bydd y Cynghorydd Buddsoddi yn cynhyrchu 4 adroddiad chwarterol ar berfformiad ac 1 adroddiad ar ddiwedd y flwyddyn a fydd yn amlinellu perfformiad portffolio'r Brifysgol. Adolygir yr adroddiadau hyn ym mhob cyfarfod Pwyllgor Buddsoddiadau bob chwe mis. Rhaid i'r wybodaeth yn yr adroddiadau hyn gynnwys digon o wybodaeth i alluogi'r Pwyllgor Buddsoddiadau i fonitro perfformiad y buddsoddiadau fel a nodir uchod.

## RHODDION Y DYFODOL

Fel arfer, bydd y rhoddion a roddir i'r Brifysgol yn y dyfodol i gynhyrchu incwm yn cael eu buddsoddi yn unol â'r Polisi Buddsoddiadau hwn ac o fewn y strategaeth dyrannu asedau sy'n gyffredin ar y pryd, oni bai bod y rhoddwr yn gwneud ceisiadau penodol ar gyfer y buddsoddiad a bod y cais yn cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Buddsoddiadau.

## DATGANIAD BUDDSODDI CYMDEITHASOL-GYFRIFOL

Mae Prifysgol Aberystwyth yn ymrwymo i sicrhau y bydd yn gwneud penderfyniadau cyfrifol a gonest ynglŷn â buddsoddi.

Datblygwyd y Datganiad hwn ar Fuddsoddi Cyfrifol yn Gymdeithasol (BCG) er mwyn galluogi'r Brifysgol i ddilyn dulliau BCG moesegol, yn ogystal â lleihau effaith negyddol ar elw ei buddsoddiadau.

Bydd penderfyniadau buddsoddi a wneir drwy ystyriaethau BCG/ACLl hefyd yn ymwybodol o ganllaw'r Comisiwn Elusennau ar fuddsoddiadau (CC14) fod gan ymddiriedolwyr ddyletswydd i hyrwyddo diben yr elusen a gwneud penderfyniadau buddsoddi i hyrwyddo'r dibenion hynny.

Wrth geisio buddsoddi er lles gorau'r Brifysgol, mae'r Pwyllgor Buddsoddiadau yn dewis buddsoddi mewn cronfeydd cyfun. Mae'r Pwyllgor Buddsoddiadau'n credu bod hyn yn briodol o ystyried maint cronnus asedau'r Brifysgol, manteision economi graddfa, costau a'r gofynion llywodraethol. Cynhaliodd y Pwyllgor Buddsoddiadau adolygiad o'i gredoau a'i bolisïau ACLl yn 2023 ac mae'n ceisio integreiddio'r rhain i'r prosesau buddsoddi wrth: (i) benodi rheolwyr buddsoddi newydd; a (ii) monitro'r rheolwyr buddsoddi presennol. Ceir hyd i'r credoau a'r polisïau yn Atodiad 2.

Dylid nodi, er bod y Pwyllgor Buddsoddiadau'n dal y credoau hyn, yn ymarferol, efallai na fydd hi bob amser yn bosibl eu gweithredu'n llawn. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor Buddsoddiadau'n ceisio defnyddio Rheolwyr Buddsoddi a chronfeydd sy'n cyd-fynd â'r polisi hwn lle bo hynny'n bosibl. Bydd y Pwyllgor Buddsoddiadau'n adolygu'r credoau a'r polisïau hyn yn flynyddol, neu'n gynt os ydynt yn teimlo bod angen/ ei bod hi'n briodol gwneud hynny.

Mae'n ofynnol i'r Cynghorydd Buddsoddi goladu ac adrodd i'r Pwyllgor Buddsoddiadau'n flynyddol i ba raddau y mae'r cronfeydd cyfun yn cyd-fynd â'r credoau/polisïau a fynegir yn y Datganiad hwn. Bydd y Pwyllgor Buddsoddiadau'n trafod materion penodol a allai godi ac yn ymgysylltu â'r Rheolwyr Buddsoddi, gyda chymorth gan ei Gynghorydd Buddsoddi.

Mae Rheolwyr Buddsoddi'r Brifysgol yn llofnodwyr ar gyfer yr Egwyddorion Buddsoddi Cyfrifol (https://www.unpri.org/).

**ATODIAD 1 – PWYSOLIAD MEINCNODI DOSBARTHIADAU ASEDAU**

Meincnod rhaniad y cronfeydd a gytunwyd gan y Pwyllgor Buddsoddiadau (Tachwedd 2023).

| **DOSBARTH ASED** | **PWYSOLIAD MEINCNODI (%)** |
|---|---|
| Ecwiti (Byd-eang ac sy’n Datblygu) | 37.5 |
| Marchnadoedd Preifat | 12.5 |
| Eiddo | 10.0 |
| Isadeiledd | 10.0 |
| Credyd Aml-Ased | 12.5 |
| Bondiau Corfforaethol | 15.0 |
| Arian parod | 2.5 |
| CYFANSWM | 100 |

## ATODIAD 2 – CREDOAU A PHOLISÏAU ACLl

- Mae'r Pwyllgor Buddsoddiadau'n cefnogi polisïau BCG a tharged sero net y Brifysgol erbyn 2030 ac mae'n credu y bydd cydweithio â'r Brifysgol o fudd i'r holl randdeiliaid.

- Mae'r Pwyllgor Buddsoddiadau'n credu bod risgiau ACLl yn berthnasol yn ariannol. Er mwyn rheoli'r risgiau hyn, bydd y Pwyllgor Buddsoddiadau'n defnyddio cronfeydd sy'n integreiddio ACLl a bydd yn ystyried cronfeydd sydd ag amcanion ACLl penodol, lle bo hynny'n bosibl.

- Mae'r Pwyllgor Buddsoddiadau'n credu bod rhai sectorau/diwydiannau penodol yn cael effaith negyddol ar gymdeithas a/neu'r amgylchedd. Felly, er bod y Pwyllgor Buddsoddiadau'n dirprwyo polisïau gwaharddol penodol i'r Rheolwyr Buddsoddi, nod y Pwyllgor Buddsoddiadau yw lleihau/dileu cyswllt y Brifysgol â sectorau dadleuol dros amser. Mae'r rhain yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ddiwydiannau tanwydd ffosil megis glo a thywod tar, Olew a Nwy anghonfensiynol, Cloddio Glo Thermol a Chynhyrchu Pŵer, Arfau a Systemau Arfau Dadleuol, Tybaco, y rhai sy'n torri Cytundeb Byd-eang y Cenhedloedd Unedig a'r rhai sy'n torri cyfraith ryngwladol. Bydd y Pwyllgor Buddsoddiadau'n monitro'r cyswllt â sectorau dadleuol yn eu cyfarfodydd bob chwe mis.

- Mae'r Pwyllgor Buddsoddiadau'n credu bod rhai marchnadoedd yn fwy effeithlon nag eraill ac mae arallgyfeirio arddulliau buddsoddi ACLl yn allweddol i reoli risg a gwella enillion posibl. Felly, mae'r Pwyllgor Buddsoddiadau'n defnyddio cyfuniad o reoli buddsoddiadau gweithredol a goddefol.

- Mae'r Pwyllgor Buddsoddiadau'n credu bod risg hinsawdd yn fygythiad systemig a allai effeithio'n ariannol ar y portffolio. Er mwyn rheoli'r risg hon, bydd y Pwyllgor Buddsoddiadau'n gweithio tuag at gyflawni portffolio sero net dros amser, gan gydnabod y cyfyngiadau y maent yn eu hwynebu o ran buddsoddi mewn trefniadau cronfa gyfun.

- Mae'r Pwyllgor Buddsoddiadau'n credo bod monitro metrigau hinsawdd yn eu helpu i ddeall pa mor agored yw buddsoddiadau'r Brifysgol i risg hinsawdd. Bydd y Pwyllgor Buddsoddiadau'n defnyddio cymysgedd o fetrigau hinsawdd sy'n edrych i'r gorffennol a'r dyfodol i fonitro risg hinsawdd o fewn y buddsoddiadau.

- Mae'r Pwyllgor Buddsoddiadau'n credu bod gan gronfeydd gwaddol ran bwysig i'w chwarae yn gyffredinol wrth hwyluso canlyniadau da i'r gymdeithas ehangach. Mae'r Pwyllgor Buddsoddiadau'n cefnogi effeithiau cadarnhaol ar gymdeithas trwy ei fuddsoddiadau, os nad yw hyn yn amharu ar y gallu i gyflawni ei amcanion buddsoddi.

- Mae'r Pwyllgor Buddsoddiadau o'r farn bod ymddwyn fel stiwardiaid cyfalaf cyfrifol yn bwysig nid yn unig er budd yr holl randdeiliaid ond i'r gymdeithas ehangach, fodd bynnag, maent yn cydnabod y cyfyngiadau y maent yn eu hwynebu o ran maint a graddfa. Er bod y Pwyllgor Buddsoddiadau wedi rhoi disgresiwn llawn i'r Rheolwyr Buddsoddi penodedig ynghylch stiwardiaeth eu buddsoddiadau, maent yn adolygu polisïau eu Rheolwyr Buddsoddi ar arfer hawliau pleidleisio ac yn monitro eu harferion ymgysylltu a'u gweithgarwch pleidleisio dirprwyol yn flynyddol.